Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

## Cynllun Taliadau 2019/20

Mae'r datganiad hwn wedi'i gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.

## Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad ynghylch p'un a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math penodol o gwsmer gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

- faint o gynnydd a ddisgwylir;
- pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;
- y strategaethau ymdrin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau o'r fath.

Mae'r newid yn y biliau terfynol ar gyfer cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid busnes sy'n codi o Gynllun Taliadau 2019/20, gan dybio lefel gyson o ddefnydd, wedi'i adolygu gan y Bwrdd. Nid yw Dŵr Cymru yn disgwyl i unrhyw filiau gynyddu'n fwy na 5%. Dengys effaith y taliadau ar sampl gynrychioladol o gwsmeriaid yn y tablau isod. Mae'r newid yn y biliau ar gyfer cwsmeriaid preswyl yn wahanol i'r newid yn y biliau ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl o ganlyniad i broses ailgydbwyso refeniw cyfanwerthu i gwsmeriaid preswyl sydd wedi'i llywio gan ein gwaith dadansoddi costau.

### Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid preswyl

| | Bil 18/19 £ | Bil 19/20 £ | Amrywiant £ | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| **Biliau Preswyl Anfesuredig** | | | | |
| GA Isel | 414 | 424 | 10 | 2.4% |
| GA Canolig | 560 | 574 | 13 | 2.4% |
| GA Uchel | 718 | 735 | 17 | 2.4% |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 576 | 590 | 14 | 2.4% |
| Dŵr yn Unig (GA Canolig) | 233 | 243 | 10 | 4.1% |
| Carthffosiaeth lawn yn unig (GA Canolig) | 327 | 331 | 4 | 1.1% |
| Carthffosiaeth dŵr budr yn unig (GA Canolig) | 272 | 281 | 10 | 3.5% |
| **Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad** | | | | |
| 1 person | 319 | 325 | 6 | 1.9% |
| 2 berson | 416 | 422 | 5 | 1.3% |
| **Tariffau Cymdeithasol** | | | | |
| WaterSure Cymru | 320 | 327 | 7 | 2.4% |
| HelpU | 197 | 202 | 5 | 2.4% |
| **Cartref Mesuredig** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 274 | 278 | 4 | 1.4% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 362 | 363 | 1 | 0.3% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 531 | 527 | -4 | -0.8% |
| Dŵr yn unig | 145 | 148 | 3 | 2.1% |
| Carthffosiaeth Lawn yn unig | 217 | 215 | -2 | -0.9% |
| Carthffosiaeth Dŵr Budr yn unig | 189 | 176 | -12 | -6.6% |

D.S. Efallai na fydd ffigurau'n gyson oherwydd talgrynnu.

### Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid dibreswyl

| | Bil 18/19 £ | Bil 19/20 £ | Amrywiant £ | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| **Biliau Dibreswyl Anfesuredig** | | | | |
| Dŵr | 306 | 290 | -16 | -5.3% |
| Carthffosiaeth | 432 | 411 | -22 | -5.0% |
| **Taliadau Mesuredig** | | | | |
| Dŵr <50Ml | 745 | 708 | -37 | -5.0% |
| Carthffosiaeth <50 Ml Gwasanaeth Llawn | 1,070 | 962 | -108 | -10.1% |
| Carthffosiaeth <50 Ml Dŵr Budr yn Unig | 907 | 863 | -44 | -4.8% |
| Carthffosiaeth >100Ml Gwasanaeth Llawn | 617,069 | 573,660 | -43,409 | -7.0% |
| Dŵr Band 1 (50Ml y flwyddyn) | 94,291 | 89,114 | -5,177 | -5.5% |
| Dŵr Band 2 (100-250Ml y flwyddyn) | 197,531 | 186,424 | -11,107 | -5.6% |
| Dŵr Band 3 (250-500Ml y flwyddyn) | 367,457 | 346,806 | -20,651 | -5.6% |
| Dŵr Band 4 (500-1000Ml y flwyddyn) | 733,609 | 696,918 | -36,691 | -5.0% |
| Dŵr Band 5 (> 1000Ml y flwyddyn) | 1,006,740 | 958,788 | -47,952 | -4.8% |
| **Elifion Masnach** | | | | |
| Elifion Masnach <100Ml | 10,077 | 9,743 | -334 | -3.3% |
| Elifion Masnach > 100ml | 375,604 | 356,324 | -19,279 | -5.1% |

D.S. Efallai na fydd ffigurau'n gyson oherwydd talgrynnu.

## Newidiadau yn y polisi codi taliadau

(b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisi codi taliadau gan y cwmni o'r flwyddyn flaenorol.

### Newidiadau 2018/19 — diweddariad

**Lleihau K cyfanwerthu**
Bwriadwyd i'r taliadau ar gyfer 2018/19 adennill llai na'r refeniw cyfanwerthu a ganiateir er mwyn sicrhau bod newidiadau i filiau preswyl nodweddiadol yn is na chwyddiant RPI. Bwriedir i'r taliadau ar gyfer 2019/2020 adennill y lwfans refeniw cyfanwerthu "llawn" gan ystyried yr addasiad "WRFIM" ar gyfer goradennill incwm yn 2017/18 fel y nodwyd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Caiff y lleihad mewn K yn nhaliadau yn 2018/19 ei adennill drwy addasiadau cysoni PR19 am fod oedi o ddwy flynedd ym methodoleg WRFIM.

**Cwsmeriaid Tâl Mesuredig ar sail Asesiad**
Cyflwynwyd llwybr y llynedd er mwyn sicrhau nad oedd y gwaith o ddiweddaru'r defnydd o ddŵr a aseswyd yn cynyddu biliau mwy na 5%. Cwblhawyd y llwybr eleni.

**Trosglwyddo Cymorth Dŵr Cymru**
Cafodd cwsmeriaid Cymorth Dŵr Cymru eu symud i dariff WaterSure Cymru o 1 Ebrill 2017. Yr unig eithriad oedd ar gyfer tua 1,500 o gwsmeriaid Severn Trent a Hafren Dyfrdwy a oedd wedi'u symud i dariff "Trosglwyddo Carthffosiaeth yn Unig Cymorth Dŵr Cymru", a gyflwynwyd gyda Chynllun Taliadau 2017/18. Mae'r tariff carthffosiaeth yn unig hwn wedi cynyddu 5% yn unol â'r cynllun trosglwyddo. Disgwylir cwblhau'r llwybr i symud y cwsmeriaid carthffosiaeth yn unig hyn i dariff WaterSure Cymru erbyn 2022.

## Newidiadau 2019/20

**Tariffau Diwydiannol**

Mae strwythur y tariffau diwydiannol wedi'i newid i dariff â thair rhan. Mae'r tariff dwy ran presennol yn cynnwys y tâl a godir ar gyfer y prif fesurydd sy'n cyflenwi'r safle yn y tâl sefydlog. O 2019/20 codir tâl am y mesurydd ar wahân. Mae'r newid hwn wedi'i gyhoeddi o fewn cwmpas newidiadau sylweddol ym mis Gorffennaf ac ochr yn ochr â chyhoeddi'r tariffau cyfanwerthu dangosol ym mis Hydref. Nid yw'r newid hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cwsmeriaid hyn.

**Adolygiad o adennill taliadau dŵr wyneb**

Ar hyn o bryd, caiff dŵr wyneb ei adennill drwy elfen sefydlog y bil anfesuredig a'r tâl cyfeintiol ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd. Mae'r polisi wedi newid er mwyn adennill costau dŵr wyneb drwy elfen sefydlog y cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd. Byddai newid ar unwaith i roi hyn ar waith yn 2019/20 yn arwain at effaith sylweddol ar gwsmeriaid dŵr budr yn unig sy'n defnyddio llawer o ddŵr ac felly caiff y gwaith o gysoni'r gyfradd gyfeintiol ei gyflwyno dros nifer o flynyddoedd.